

Cwestiynau enghreiffiol i ddatblygu ymresymu rhifyddol

Adnabod prosesau a chysylltiadau - (dechrau ar y broblem - **Darllen, Tanlinellu**)

- Am beth mae'r broblem hon? Pa bwnc mathemateg sy'n berthnasol?
- Beth mae angen inni ei weithio allan?
- Ydyn ni wedi gweld unrhyw beth yn debyg i'r broblem hon o'r blaen? Pa ddulliau a ddefnyddioch chi'r tro diwethaf? Fydden nhw'n gweithio yn y broblem hon?
- Pa wybodaeth rydyn ni'n ei gwybod? Ydych chi wedi darllen y wybodaeth i gyd?
- Uwchleuwch pob un o'r pwyntiau allweddol, y wybodaeth bwysig a fydd yn ddefnyddiol.
- Pa wybodaeth arall allai fod ei hangen amon ni? Oes unrhyw wybodaeth ar goll?
- Pa offer, os o gwbl, fydd ei hangen amon ni i'n helpu ni?
- Ble mae angen inni ddechrau? Oes unrhyw un yn gallu meddwl am ffordd wahanol?
- Pa ddull allai fod orau i'w ddefnyddio yma?
- Pa fathemateg allai fod angen inni ei defnyddio? Oes angen inni wybod unrhyw fformiwla?
- Sut gallwn ni dorri'r broblem hon i lawr yn gamau llai? Beth gallwch chi ei weithio allan yn gyntaf?
- Sut bydd hyn yn eich helpu chi gyda chamau nesaf datrys y broblem?
- Ydych ni'n gallu gwneud amcangyfrif synhwyrol o'r ateb allai fod?

Cynrychioli a chyfathrebu (gweithio drwy a datrys - **Cyfrifo, Datrys, Ateb**)

- Beth yw'r ffordd orau o ddangos eich data?
- Fyddai diagram, graff neu siart yn ddefnyddiol? Os felly, pa un fyddai fwyaf priodol?
- Pa batrymau y gallwch chi eu gweld?
- Os bydd graff neu siart yn cael ei gynnwys, beth mae'n ei ddweud wrthoch chi? Sut gallwch chi ddefnyddio'r wybodaeth?
- Pa un yw'r ffordd orau i chi ddangos eich gweithio? Ydy'r gweithio'n eglur?
- Ydych chi wedi meddwl am ddull gam wrth gam i ddatrys hyn ac ydych chi'n cyfleu hyn? Byddwch yn drefnus.
- Ydych chi'n defnyddio'r unedau mwyaf priodol?

Adolygu (gwirio'r ateb, ydy e'n synhwyrol? – **Gwirio**)

- Ydy eich ateb yn cysylltu â'r cwestiwn? Ydych chi wedi cofio beth oedd y cwestiwn oedd yn cael ei ofyn?
- Ydych chi wedi cofio defnyddio unedau lle mae angen, e.e. £ ar gyfer arian, ac ati.?
- All unrhyw un feddwl am ffordd arall o ddatrys hyn?
- Sut gallwn ni wirio ein cyfrifiadau ni heb wneud y cyfan eto?
- Ydych chi'n meddwl bod eich ateb yn rhesymol? Argyhoeddwch fi.
- Pa strategaethau defnyddiol rydyn ni wedi'u dysgu ar gyfer tro nesaf?